

Taflen 3

Gweithgaredd 9: Ailfeddwl Cyfrifoldeb

Ellen Kerry Davis - Trawsgrifiadau Fideo

CLIP 1

Yn gyntaf, roedd yr holl blant yr oeddem yn arfer chwarae â nhw, naill ai'n ein hanwybyddu, yn taflu cerrig atom neu'n ein galw'n 'Iddew'.

Wel, i blentyn nad yw'n gwybod beth yw'r gwahaniaeth rhwng Cristion ac Iddew—ac eithrio eu bod nhw'n mynd i eglwys, a ninnau'n mynd i synagog—ac roedd yn brifo oherwydd roeddem wedi bod yn ffrindiau a dim ond pedair oed oeddwn i.

A'r prif atgof oedd y ffaith mai plismon y pentref oedd ffrind gorau fy nhad. Ac yr wyf yn cofio, bod yn blentyn swnllyd iawn, yn dod i lawr un noson, yn clywed lleisiau ac yr oedd plismon y pentref a fy nhad—yr heddwys yr oeddem yn ei alw'n 'ewythr'—yn dweud wrth fy nhad, "Julius, peidiwch â siarad â mi yn y stryd oherwydd ni allaf siarad â chi. Os byddaf yn gweiddi arnoch chi, maddeuwch i mi!"

"Dywedwch wrth y plant na ddylen nhw fy ngalw'n 'ewythr', oherwydd..." meddai, "Mae'n rhaid i mi wisgo'r wisg ofnadwy yma, mae gen i deulu ac mae'n rhaid i mi fyw yma."

Ac am y tro cyntaf yn fy mywyd ifanc, darganfyddais y gallai dynion grio. Doeddwn i byth yn gwybod hynny. Roeddwn i'n gwybod y gallwn i grio pan oeddwn yn brifo, ond bod dynion yn crio. Doeddwn i ddim yn gwybod hynny. A dyna oedd y sioc fwyaf oll, y ffaith bod y ddau ddyn mawr, cryf yma yn gallu crio.

Ac yna sylweddolais pam, pan ddywedodd, "Dywedwch wrth y plant na ddylen nhw fy ngalw i'n 'ewythr'. Ac os byddaf yn gweiddi arnynt, dywedwch wrthynt, peidiwch â chymryd sylw".

CLIP 2

EKD: Ymhlith yr holl alltudion, y bobl a gafodd eu cludo yn y tryciau gwartheg o Kassel, roedd dau fachgen ag enwau Rwsieg. Cawsant eu hanfon i garch... i wersyll a phan oedd y rhyfel drosodd, cawsant eu rhyddhau gan Rwsiaid.

Daethant yn ôl i Kassel—yr unig bobl a ddaeth yn ôl i Kassel—a thyngu affidafidau i'r hyn a welsant. Ac yr oedd un o'r affidafidau hyn yn ymwneud â'm teulu, oherwydd nid oes unrhyw ffordd y gallech chi golli un wraig a chwech o blant bach; yr hynaf yn 11 a'r ieuengaf yn ddwy.

Fe wnaethant gyrraedd Riga. Ac mae hyn wedi'i dyngu fel affidafid...

Cyfwelydd: Ym mha flwyddyn?

EKD: Yn 1941, Rhagfyr 1941. Ac roedd y Natsïaid, neu pwy bynnag oedd wrth y llyw, eisiau gwahanu fy mam oddi wrth fy mrodyr a chwirydd. A dyma fy mrawd 11 oed yn sefyll o flaen fy nheulu gyda'i freichiau wedi eu hestyn fel petai i'w cofleidio, a throdd o gwmpas at y Natsïaid a dweud, "Rydyn ni'n mynd i farw, byddwn ni'n marw gyda'n gilydd."

A dyma nhw'n eu saethu, yn y fan a'r lle.

